OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1121 (Cy. 186)

2025 No. 1121 (W. 186)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025

The Sheep Carcass (Classification and Price Reporting) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) ac maent yn darparu ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn fandadol ac adrodd am eu prisiau yn fandadol gan ladd-dai cymeradwy mwy o faint.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r lladd-dai cymeradwy y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt ("lladd-dai rheoleiddiedig"), ac mae rheoliad 4 yn darparu bod rhaid i'r lladd-dai hynny roi hysbysiad i Weinidogion Cymru i'r perwyl hwnnw.

Mae rheoliad 5 ac Atodlen 1 yn pennu'r gofynion o ran dosbarthu y mae rhaid eu bodloni gan ladd-dai rheoleiddiedig mewn cysylltiad â'r rhan fwyaf o'r carcasau a brosesir ganddynt. Mae gofynion o ran dosbarthu i'w cynnal ar yr adeg y mae'r carcasau yn cael eu pwyso fel y nodir yn rheoliad 10, unwaith y bydd rhif lladdiad wedi ei ddyrannu i'r carcasau o dan reoliad 8 ac unwaith y bydd y carcasau wedi eu cyflwyno yn unol â rheoliad 7.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob carcas a ddosbarthwyd i'w labelu â'r wybodaeth a nodir yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn nodi'r holl wybodaeth y mae rhaid iddi gael ei chofnodi gan ladd-dai rheoleiddiedig ar gyfer pob carcas a ddosberthir, ac mae rheoliad 13 yn darparu bod rhaid cyfathrebu'r wybodaeth a gynhwysir mewn cofnodion penodedig i gyflenwr yr anifail y cafwyd y carcas ohono.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made using powers in the Agriculture (Wales) Act 2023 (asc 4) and provide for mandatory classification and price reporting of sheep carcasses by larger approved slaughterhouses.

Regulation 3 sets out the approved slaughterhouses to which these Regulations apply ("regulated slaughterhouses"), and regulation 4 provides that those slaughterhouses must give notice to the Welsh Ministers to that effect.

Regulation 5 and Schedule 1 stipulate the classification requirements which must be met by regulated slaughterhouses in respect of most of the carcasses which they process. Classification requirements are to be carried out at the time that the carcasses are being weighed as set out in regulation 10, once the carcasses have been allocated a kill number under regulation 8 and have been presented in accordance with regulation 7.

Regulation 9 requires that each classified carcass is to be labelled with the information set out in that regulation.

Regulations 11 and 12 set out all the information which must be recorded by regulated slaughterhouses for each carcass which is classified, and regulation 13 provides that the information contained in specified records must be communicated to the supplier of the animal from which the carcass was obtained.

Mae Rhan 3 yn nodi system o reoli dosbarthu drwy drwyddedau ac awdurdodiadau.

Part 3 sets out a system of control of classification through licences and authorisations.

Mae Rhan 4 ac Atodlen 2 yn nodi'r weithdrefn a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i awdurdodi'r defnydd o ddulliau dosbarthu "awtomataidd" i'w defnyddio mewn lladd-dai rheoleiddiedig.

Part 4 and Schedule 2 set out the procedure by which the Welsh Ministers authorise the use of "automated" classification methods for use in regulated slaughterhouses.

Mae Rhan 5 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr lladd-dy sicrhau bod gwybodaeth am brisiau'r farchnad yn cael ei hadrodd i berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru.

Part 5 requires the operator of a slaughterhouse to ensure that market price information is reported to a person authorised by the Welsh Ministers.

Mae Rhan 6 yn cynnwys darpariaethau sy'n cyfyngu ar sut y gall y rhai sy'n trin data'r farchnad a ddarperir gan ladd-dai brosesu a datgelu'r wybodaeth honno.

Part 6 contains provisions which restrict how those who handle the market data provided by slaughterhouses can process and disclose that information.

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau gorfodi. Mae rheoliadau 25 a 26 yn rhoi pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig a phwerau cysylltiedig i ganiatáu iddynt edrych am achosion o dorri'r Rheoliadau hyn, a chasglu tystiolaeth am y toriadau hynny. O dan reoliadau 27 a 28 caniateir cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau cosb ariannol mewn cysylltiad â thoriadau a nodir, a rhoddir mecanwaith apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar waith gan reoliad 29.

Part 7 contains enforcement provisions. Regulations 25 and 26 give authorised officers powers of entry and associated powers to allow them to check for, and gather evidence of, breaches of these Regulations. Under regulations 27 and 28 compliance notices and monetary penalty notices may be served in respect of breaches identified, and an appeal mechanism to the First-tier Tribunal is put in place by regulation 29.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 1121 (Cy. 186)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025

Gwnaed *22 Hydref 2025*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) and (3)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 25(2), 32(1) a (3), 35(1) a (2), a 50(2) a (4) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**1**).

Yn unol ag adran 50(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (3), i rym ar 28 Ionawr 2026.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar 12 Chwefror 2027—

(a) rheoliad 5(1)(b) a (6);

(b) rheoliad 11(2)(g);

(c) rheoliad 13(b);

(d) rheoliadau 16 a 17;

(**1**) 2023 dsc 4.

2025 No. 1121 (W. 186)

AGRICULTURE, WALES

The Sheep Carcass (Classification and Price Reporting) (Wales) Regulations 2025

Made *22 October 2025*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 25(2), 32(1) and (3), 35(1) and (2), and 50(2) and (4) of the Agriculture (Wales) Act 2023(**1**).

In accordance with section 50(6) of that Act, a draft of these regulations has been laid before and approved by Senedd Cymru.

PART 1

Introductory

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Sheep Carcass (Classification and Price Reporting) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations, other than the provisions specified in paragraph (3), come into force on 28 January 2026.

(3) The following provisions come into force on 12 February 2027—

(a) regulation 5(1)(b) and (6);

(b) regulation 11(2)(g);

(c) regulation 13(b);

(d) regulations 16 and 17;

(**1**) 2023 asc 4.

(e) rheoliad 18 i'r graddau y mae'n ymwneud â dulliau dosbarthu awtomataidd y cyfeirir atynt yn rheoliadau 16 a 17;

(f) rheoliadau 19 ac 20;

(g) rheoliad 23(2)(b);

(h) Atodlen 2.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "carcas" ("*carcass*") yw corff cyfan dafad a gigyddwyd—

(a) fel y'i cyflwynir yn unol â rheoliad 7, ar ôl ei waedu, ei ddiberfeddu a thynnu ei groen, a

(b) sy'n dwyn marc iechyd y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 4 o Erthygl 18 o Reoliad (EU) Rhif 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(**1**), ac yn Erthygl 48 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2019/627 dyddiedig 15 Mawrth 2019 ac Atodiad 2 iddo sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl;

ystyr "cofnod dosbarthiad" ("*classification record*") yw'r cofnod o'r dosbarthiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 5(5);

ystyr "cyfartaledd blynyddol treigl" ("*rolling annual average*") yw'r cyfartaledd cymedrig a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn cyn unrhyw adeg benodol;

ystyr "dosbarthiad" ("*classification*") yw dosbarthiad carcasau yn unol â rheoliad 5(2)(b) ac Atodlen 1;

ystyr "dosbarthu carcasau drwy edrych arnynt" (*visual classification*) yw dosbarthiad a gynhelir gan ddosbarthwr trwyddedig drwy edrych a heb gymorth dull dosbarthu awtomataidd;

ystyr "dosbarthwr trwyddedig" ("*licensed classifier*") yw person y rhoddwyd trwydded iddo o dan reoliad 14(1);

ystyr "dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig" ("*authorised automated classification method*") yw dull dosbarthu awtomataidd a awdurdodir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 19;

(**1**) EUR 2017/625 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1481. Diffinnir "health mark" ym mhwynt (51) o Erthygl 3 o EUR 2017/625.

(e) regulation 18 insofar as it relates to automated classification methods referred to in regulations 16 and 17;

(f) regulations 19 and 20;

(g) regulation 23(2)(b);

(h) Schedule 2.

Interpretation

2. In these Regulations—

"aged less than 12 months" ("*llai na 12 mis oed*") means, in relation to any sheep, that it—

(a) does not have a permanent incisor erupted through the gum, or

(b) is determined to be less than 12 months by any method of assessment of age approved by the Welsh Ministers;

"approval number*"* ("*rhif cymeradwyo*") means the number allocated to a slaughterhouse to indicate that it is an approved slaughterhouse(**1**);

"approved slaughterhouse" ("*lladd-dy cymeradwy*") means an establishment in Wales which is—

(a) used for slaughtering sheep for meat, and

(b) approved or conditionally approved under Article 4 of Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council of 29 April 2004 laying down specific hygiene rules for food of animal origin(**2**);

"authorised automated classification method" ("*dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig*") means an automated classification method which is authorised by the Welsh Ministers in accordance with regulation 19;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means a person authorised by the Welsh Ministers to carry out on-the-spot checks under regulation 23 and to exercise powers under regulations 25 and 26;

"automated classification methods" ("*dulliau dosbarthu awtomataidd*") means classification methods which consist of—

(a) a machine or other apparatus, and

(b) a formula,

(**1**) The number allocated by the competent authority to a slaughterhouse approved or conditionally approved under EUR 2004/853, amended by S.I. 2019/640. The Welsh Ministers have delegated the Food Standards Agency to be the competent authority by virtue of Article 2 of EUR 2004/852, amended by S.I. 2019/642. There are other amending instruments but none are relevant.

(**2**) EUR 2019/627 is amended in relation to Annex 2 by S.I. 2020/1631.

ystyr "dulliau dosbarthu awtomataidd" ("*automated classification methods*") yw dulliau dosbarthu sy'n cynnwys—

(a) peiriant neu gyfarpar arall, a

(b) fformiwla,

y gellir eu defnyddio neu ei defnyddio i ddosbarthu carcasau defaid yn awtomatig;

ystyr "gweithredwr" ("*operator*") yw person sy'n cynnal busnes gweithredu lladd-dy cymeradwy;

mae i "gwiriadau yn y fan a'r lle" ("*on-the-spot checks*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 23;

mae i "hysbysiad cosb ariannol" ("*monetary penalty notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 28(1);

mae i "hysbysiad cydymffurfio" ("*compliance notice*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 27(1);

ystyr "lladd-dy cymeradwy" ("*approved slaughterhouse*") yw sefydliad yng Nghymru—

(a) a ddefnyddir ar gyfer cigydda defaid, a

(b) sydd wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo'n amodol o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifail(**1**);

ystyr "lladd-dy rheoleiddiedig" ("*regulated slaughterhouse*") yw lladd-dy cymeradwy y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "llai na 12 mis oed" ("*aged less than 12 months*"), mewn perthynas ag unrhyw ddafad, yw—

(a) nad oes ganddi flaenddant parhaol wedi torri drwy'r deintgig, neu

(b) y canfyddir ei bod yn llai na 12 mis oed drwy unrhyw ddull asesu oedran a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "manyleb carcas" ("*carcass specification*") yw un o'r manylebau ar gyfer paratoi carcas a nodir yn rheoliad 7(2) a (3);

mae i "pwysau cynnes" ("*warm weight*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10(2);

ystyr "pwysau marw" ("*deadweight*") yw wedi ei phrynu ar y sail bod yr union bris i'w sefydlu ar ôl i'r ddafad gael ei lladd, yn ôl y pwysau, y dosbarthiad neu'r meini prawf eraill a bennwyd ymlaen llaw y canfyddir wedi hynny ei bod yn eu bodloni;

by which classification of sheep carcasses can be carried out automatically;

"carcass" ("*carcas*") means the whole body of a slaughtered sheep—

(a) as presented in accordance with regulation 7, after bleeding, evisceration and skinning, and

(b) bearing a health mark provided for in paragraph 4 of Article 18 of Regulation (EU) No 2017/625 of the European Parliament and of the Council of 15 March 2017 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products(**1**), and in Article 48 of, and Annex 2 to Commission Implementing Regulation (EU) No 2019/627 of 15 March 2019 laying down uniform practical arrangements for the performance of official controls on products of animal origin intended for human consumption;

"carcass specification" ("*manyleb carcas*") means one of the specifications for preparation of a carcass set out in regulation 7(2) and (3);

"classification" ("*dosbarthiad*") means the classification of carcasses in accordance with regulation 5(2)(b) and Schedule 1;

"classification record" ("*cofnod dosbarthiad*") means the record of the classification containing the information set out in regulation 5(5);

"cold weight" ("*pwysau oer*") has the meaning given in regulation 10(3);

"compliance notice" ("*hysbysiad cydymffurfio*") has the meaning given in regulation 27(1);

"deadweight" ("*pwysau marw*") means purchased on the basis that the exact price is to be established once the sheep has been slaughtered, according to the weight, classification or other pre-determined criteria it is subsequently found to meet;

"licensed classifier" ("*dosbarthwr trwyddedig*") means a person to whom a licence has been granted under regulation 14(1);

"monetary penalty notice" ("*hysbysiad cosb ariannol*") has the meaning given in regulation 28(1);

"on-the-spot checks" ("*gwiriadau yn y fan a'r lle*") has the meaning given in regulation 23;

"operator" ("*gweithredwr*") means a person who carries on the business of operating an approved slaughterhouse;

(**1**) Mae EUR 2019/627 wedi ei ddiwygio mewn perthynas ag Atodiad 2 gan O.S. 2020/1631.

(**1**) EUR 2017/625 as amended by S.I. 2020/1481. "Health mark" is defined in point (51) of Article 3 of EUR 2017/625.

mae i "pwysau oer" ("*cold weight*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10(3);

ystyr "rhif cymeradwyo" ("*approval number*") yw'r rhif a ddyrennir i ladd-dy i ddynodi ei fod yn lladd-dy cymeradwy(**1**);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru i gynnal gwiriadau yn y fan a'r lle o dan reoliad 23 ac i arfer pwerau o dan reoliadau 25 a 26.

"regulated slaughterhouse" ("*lladd-dy rheoleiddiedig*") means an approved slaughterhouse to which these Regulations apply in accordance with regulation 3(1);

"rolling annual average" ("*cyfartaledd blynyddol treigl*") means the mean average calculated for the year preceding any given point in time;

"visual classification" ("*dosbarthu carcasau drwy edrych arnynt*") means classification which a licensed classifier carries out by eye and without the aid of an automated classification method;

"warm weight" ("*pwysau cynnes*") has the meaning given in regulation 10(2).

Lladd-dai cymeradwy y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

3.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(a) lladd-dy cymeradwy lle y cigyddir o leiaf 2,000 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl, a

(b) lladd-dy cymeradwy lle y cigyddir o leiaf 1,000 ond llai na 2,000 o ddefaid yr wythnos fel cyfartaledd blynyddol treigl, y rhoddwyd hysbysiad mewn cysylltiad ag ef o dan baragraff (2) nad yw wedi ei dynnu yn ôl.

(2) Caiff gweithredwr lladd-dy cymeradwy o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (1)(b) roi hysbysiad i Weinidogion Cymru yn gofyn i'r Rheoliadau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â'r lladd-dy hwnnw.

(3) Ni all gweithredwr dynnu hysbysiad a roddwyd o dan baragraff (2) yn ôl o fewn 12 mis o'r dyddiad y'i rhoddwyd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno.

(4) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "wythnos" yw cyfnod o saith niwrnod o ddydd Llun i ddydd Sul yn gynwysedig, a

(b) mae cyfeiriadau at "cyfartaledd blynyddol treigl" yn gyfeiriadau at y cyfartaledd hwnnw a gyfrifir gan ladd-dy cymeradwy yn fisol.

Approved slaughterhouses to which these Regulations apply

3.—(1) These Regulations apply to—

(a) an approved slaughterhouse at which at least 2,000 sheep per week are slaughtered as a rolling annual average, and

(b) an approved slaughterhouse at which at least 1,000 but fewer than 2,000 sheep per week are slaughtered as a rolling annual average, in respect of which a notice has been given under paragraph (2) which has not been withdrawn.

(2) The operator of an approved slaughterhouse of the kind described in paragraph (1)(b) may give notice to the Welsh Ministers requesting that these Regulations apply in relation to that slaughterhouse.

(3) An operator cannot withdraw a notice given under paragraph (2) within 12 months from the date on which it was given unless the Welsh Ministers agree.

(4) In paragraph (1)—

(a) a "week" means a seven day period from Monday to Sunday inclusive, and

(b) references to "rolling annual average" are to that average calculated by an approved slaughterhouse on a monthly basis.

(**1**) Y rhif a ddyrennir gan yr awdurdod cymwys i ladd-dy a gymeradwywyd neu a gymeradwywyd yn amodol o dan EUR 2004/853, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/640. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r Asiantaeth Safonau Bwyd i fod yr awdurdod cymwys yn rhinwedd Erthygl 2 o EUR 2004/852, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/642. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Hysbysiadau gan weithredwyr

4.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig ar 28 Ionawr 2026, cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (3).

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n dod yn weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig ar ôl 28 Ionawr 2026, cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad daw'n weithredwr, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (3).

(3) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn gael ei roi yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) cyfeiriad, rhif teleffon a rhif cymeradwyo'r lladd-dy,

(b) enw llawn a chyfeiriad y gweithredwr,

(c) pan fo'r gweithredwr yn bartneriaeth neu pan fo cydberchnogion, enwau llawn a chyfeiriadau pob un o'r partneriaid yn y bartneriaeth neu bob berchennog ar y busnes, a

(d) pan fo'r gweithredwr yn gorff corfforedig, rhif cofrestru'r corff corfforedig.

(4) Pan fo newid yn digwydd i unrhyw wybodaeth a gynhwysir mewn hysbysiad a roddwyd o dan baragraff (3), rhaid i'r gweithredwr, cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r newid hwnnw'n digwydd, roi hysbysiad o fanylion y newid i Weinidogion Cymru.

(5) Pan fo lladd-dy yn peidio â bod yn lladd-dy rheoleiddiedig, rhaid i weithredwr y lladd-dy hwnnw, cyn diwedd y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae hynny'n digwydd, roi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i Weinidogion Cymru.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "partneriaeth" yw—

(a) busnes sy'n dod o fewn yr ystyr a roddir i "partnership" yn adran 1 o Ddeddf Partneriaeth 1890(**1**), neu

(b) partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n dod o fewn yr ystyr a roddir i "limited liability partnership" yn adran 1 o Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000(**2**).

(**1**) 1890 p. 39; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1998 (p. 43) ac O.S. 2009/1941.
(**2**) 2000 p. 12.

Notifications by operators

4.—(1) Any person who is an operator of a regulated slaughterhouse on 28 January 2026 must, before the end of the period of 28 days beginning with that date, give notice to the Welsh Ministers in accordance with paragraph (3).

(2) Any person who becomes an operator of a regulated slaughterhouse after 28 January 2026 must, before the end of the period of 28 days beginning with the date on which they become an operator, give notice to the Welsh Ministers in accordance with paragraph (3).

(3) A notice under this paragraph must be given in writing and include—

(a) the address, telephone number and approval number of the slaughterhouse,

(b) the full name and address of the operator,

(c) where the operator is a partnership or has joint owners, the full names and addresses of all the partners in the partnership or owners of the business, and

(d) where the operator is a body corporate, the registration number of the body corporate.

(4) Where a change occurs to any information included in a notice given under paragraph (3), the operator must, before the end of the period of 28 days beginning with the date on which that change occurs, give notice to the Welsh Ministers of the particulars of the change.

(5) Where a slaughterhouse ceases to be a regulated slaughterhouse, the operator of that slaughterhouse must, before the end of the period of 10 days beginning with the day on which that occurs, give notice of that cessation, in writing to the Welsh Ministers.

(6) For the purposes of this regulation "partnership" means—

(a) a business which falls within the meaning given in section 1 of the Partnership Act 1890(**1**), or

(b) a limited liability partnership within the meaning given in section 1 of the Limited Liability Partnerships Act 2000(**2**).

(**1**) 1890 c. 39; section 1 was amended by the Statute Law (Repeals) Act 1998 (c. 43) and S.I. 2009/1941.
(**2**) 2000 c. 12.

RHAN 2

Dosbarthu etc. carcasau defaid sy'n llai na 12 mis oed

Gofyniad a dulliau ar gyfer dosbarthu carcasau

5.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau bod carcas pob dafad sy'n llai na 12 mis oed ar adeg ei chigydda yn y lladd-dy hwnnw yn cael ei ddosbarthu yn unol â pharagraff (2)—

(a) drwy edrych arno gan ddosbarthwr trwyddedig, neu

(b) drwy ddefnyddio dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig.

(2) Rhaid i ddosbarthiadau o dan y paragraff hwn—

(a) cael eu cynnal ar yr adeg y mae pwysau cynnes y carcas yn cael ei ganfod yn unol â rheoliad 10, a

(b) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), ddosbarthu'r carcas yn ôl—

(i) dosbarth cydffurfiad o golofn gyntaf Tabl 1 yn Atodlen 1, a

(ii) dosbarth gorchudd braster o golofn gyntaf Tabl 2 yn yr Atodlen honno.

(3) Caniateir isrannu pob un o'r dosbarthau cydffurfiad yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn Atodlen 1, neu orchudd braster yng ngholofn gyntaf Tabl 2 yn yr Atodlen honno, yn dri is-ddosbarth: Isel (wedi ei farcio fel "-"), Canolig (wedi ei farcio fel "=") ac Uchel (wedi ei farcio fel "+").

(4) Os nad yw'r opsiwn ym mharagraff (3) yn cael ei arfer mewn perthynas â'r dosbarthau gorchudd braster—

(a) "3. Cymedrol", a

(b) "4. Uchel",

rhaid isrannu'r dosbarthau gorchudd braster hynny yn is-ddosbarthau Isel (wedi ei farcio fel "I") ac Uchel (wedi ei farcio fel "U").

(5) Rhaid i'r gweithredwr gadw cofnod dosbarthiad ar gyfer pob carcas a ddosberthir o dan baragraff (1), sy'n cynnwys—

(a) y fanyleb gyflwyno a ddefnyddir o dan reoliad 7,

(b) pwysau oer y carcas a ganfyddir yn unol â rheoliad 10(3), ac

(c) y dosbarthiad a benderfynir o dan baragraffau (2)(b), (3) a (4).

PART 2

Classification etc. of carcasses of sheep aged less than 12 months

Requirement and methods for classification of carcasses

5.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that the carcass of each sheep aged less than 12 months at the time of its slaughter at that slaughterhouse is classified in accordance with paragraph (2)—

(a) visually by a licensed classifier, or

(b) by use of an authorised automated classification method.

(2) Classifications under this paragraph must—

(a) be carried out at the time that the warm weight of the carcass is being determined in accordance with regulation 10, and

(b) subject to paragraphs (3) and (4), classify the carcass by—

(i) a conformation class from the first column of Table 1 in Schedule 1, and

(ii) a class of fat cover from the first column of Table 2 in that Schedule.

(3) Each of the classes of conformation in the first column of Table 1 in Schedule 1, or fat cover in the first column of Table 2 in that Schedule, may be subdivided into three subclasses of Low (marked as "-"), Medium (marked as "=") and High (marked as "+").

(4) If the option in paragraph (3) is not exercised in relation to the fat cover classes—

(a) "3. Average", and

(b) "4. High",

those fat cover classes must be subdivided into the subclasses Low (marked as "L") and High (marked as "H").

(5) The operator must keep a classification record for each carcass classified under paragraph (1), comprising—

(a) the specification of presentation used under regulation 7,

(b) the cold weight of the carcass established in accordance with regulation 10(3), and

(c) the classification determined under paragraphs (2)(b), (3) and (4).

(6) Os yw gweithredwr lladd-dy rheoleiddiedig yn defnyddio dull dosbarthu awtomataidd a bod y dull hwnnw'n methu â dosbarthu carcas yn gywir, rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y carcas yn cael ei ddosbarthu drwy edrych arno gan ddosbarthwr trwyddedig cyn gynted â phosibl ar ôl nodi'r methiant hwnnw.

(6) If the operator of a regulated slaughterhouse uses an automated classification method and that method fails to accurately classify a carcass, the operator must ensure that the carcass is visually classified by a licensed classifier as soon as possible after that failure is identified.

Tynnu meinwe o garcas

6.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau nad oes unrhyw fraster, unrhyw gyhyrau neu unrhyw feinwe arall yn cael eu tynnu o garcas yn y lladd-dy hwnnw cyn ei bwyso a'i ddosbarthu.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i—

(a) rheoliad 7, a

(b) cymhwyso gofynion milfeddygol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gofynion milfeddygol" yw'r gofynion sy'n ymwneud â gwiriadau swyddogol post-mortem yn—

(a) Rheoliad (EU) Rhif 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, a

(b) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2019/627 dyddiedig 15 Mawrth 2019 sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl.

Removal of tissue from a carcass

6.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that no fat, muscle or other tissue is removed from a carcass in that slaughterhouse before weighing and classification.

(2) Paragraph (1) is subject to—

(a) regulation 7, and

(b) the application of veterinary requirements.

(3) In this regulation, "veterinary requirements" means the requirements relating to post-mortem official checks in—

(a) Regulation (EU) No 2017/625 of the European Parliament and of the Council of 15 March 2017 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products, and

(b) Commission Implementing Regulation (EU) No 2019/627 of 15 March 2019 laying down uniform practical arrangements for the performance of official controls on products of animal origin intended for human consumption.

Cyflwyno carcasau i'w dosbarthu

7.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau bod pob carcas yn y lladd-dy hwnnw yn cael ei gyflwyno i'w ddosbarthu trwy ei hongian a'i baratoi yn unol â'r naill neu'r llall o'r manylebau carcas a nodir ym mharagraff (2) neu (3).

(2) Y "manyleb gyfeirio" yw cyflwyno'r carcas ar ôl tynnu—

(a) y pen, wedi ei dorri wrth y cymal atlantoocsipitol,

(b) y traed, wedi eu torri wrth y cymalau carpometacarpol neu darsometatarsol,

(c) y gynffon, wedi ei thorri rhwng y chweched a'r seithfed fertebra cynffonnol,

(d) y pwrs,

(e) yr organau cenhedlu,

(f) yr afu/iau, ac

(g) y plwc.

Presentation of carcasses for classification

7.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that each carcass in that slaughterhouse is presented for classification by hanging it and preparing it according to either of the carcass specifications set out in paragraph (2) or (3).

(2) The "reference specification" is presentation of the carcass following removal of—

(a) the head, severed at the atlanto-occipital joint,

(b) the feet, severed at the carpometacarpal or tarsometatarsal joints,

(c) the tail, severed between the sixth and seventh caudal vertebrae,

(d) the udder,

(e) the genitalia,

(f) the liver, and

(g) the pluck.

(3) "Manyleb safonol y DU" yw cyflwyno'r carcas ar ôl tynnu'r holl rannau a nodir ym mharagraff (2)(a) i (g) ac yn ogystal tynnu dyrnau'r arennau, braster sianel a'r diaffram.

Dull adnabod carcasau

8. Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau y dyroddir rhif lladdiad unigryw i bob carcas yn y lladd-dy hwnnw sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod y carcas a'r llwyth o anifeiliaid y'i cafwyd ohono.

Labelu carcasau

9.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau bod pob carcas a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw yn cael ei labelu ar adeg ei ddosbarthu â label sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) y rhif lladdiad adnabod a ddyrennir o dan reoliad 8,

(b) dyddiad cigydda'r anifail y cafwyd y carcas ohono,

(c) rhif cymeradwyo'r lladd-dy,

(d) dosbarthiad y carcas a benderfynir o dan reoliad 5(2)(b), (3) a (4),

(e) pwysau oer y carcas, ac

(f) pa un a gynhaliwyd y dosbarthiad drwy edrych ar y carcas neu drwy ddull dosbarthu awtomataidd.

(2) Rhaid i'r labelau a ddefnyddir at ddibenion paragraff (1) fod yn glir i'w darllen, yn wrth-ymyrraeth ac ynghlwm yn gadarn wrth y carcas.

Canfod pwysau carcas

10.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau bod pwysau oer pob carcas a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw yn cael ei ganfod yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Er mwyn canfod ei bwysau cynnes, rhaid pwyso'r carcas i'r 100 gram agosaf—

(a) cyn gynted â phosibl, a

(b) heb fod yn hwyrach na chwe deg munud ar ôl i'r anifail gael ei gigydda.

(3) Pwysau oer y carcas yw ei bwysau cynnes wedi ei leihau gan 2%.

(3) The "UK standard specification" is presentation of the carcass following removal of all parts set out in paragraph (2)(a) to (g) and additionally removal of the kidney knobs, channel fat and diaphragm.

Identification of carcasses

8. The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that each carcass in that slaughterhouse is allocated a unique kill number which identifies the carcass and the batch of animals from which it was obtained.

Labelling of carcasses

9.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that each carcass classified in that slaughterhouse is labelled at the time of classification with a label containing the following information—

(a) the identifying kill number allocated under regulation 8,

(b) the date of slaughter of the animal from which the carcass was obtained,

(c) the approval number of the slaughterhouse,

(d) the classification of the carcass determined under regulation 5(2)(b), (3) and (4),

(e) the cold weight of the carcass, and

(f) whether classification was carried out visually or by automated classification method.

(2) Labels used for the purposes of paragraph (1) must be clearly legible, tamper-proof and firmly attached to the carcass.

Determination of carcass weight

10.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that the cold weight of each carcass classified in that slaughterhouse is determined in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) To determine its warm weight, the carcass must be weighed to the nearest 100 grams—

(a) as soon as possible, and

(b) not later than sixty minutes after the animal has been slaughtered.

(3) The cold weight of the carcass is its warm weight reduced by 2%.

Cadw cofnodion

11.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig lunio a chadw cofnod o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) ar gyfer pob carcas a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Yr wybodaeth y mae rhaid ei chofnodi o dan y paragraff hwn yw—

(a) dyddiad y cigydda,

(b) y rhif lladdiad a ddyrennir o dan reoliad 8,

(c) y cofnod dosbarthiad a wneir o dan reoliad 5(5),

(d) pa un a oedd yr anifail y cafwyd y carcas ohono yn perthyn i'r categori oen tymor newydd neu'r categori oen hen dymor,

(e) cadarnhad bod unrhyw gyfathrebiad â chyflenwr sy'n ofynnol gan reoliad 13 wedi ei roi,

(f) pan fo dosbarthiad wedi ei gynnal drwy edrych ar garcas, enw, llofnod a rhif cyfresol trwydded dosbarthu'r dosbarthwr trwyddedig a gynhaliodd y dosbarthiad,

(g) pan fo dosbarthiad wedi ei gynnal drwy ddull dosbarthu awtomataidd, enw, llofnod a rhif cyfresol trwydded dosbarthu'r person a oruchwyliodd y dosbarthiad,

(h) pan fo'n gymwys, pris y farchnad a bennir yn unol â rheoliad 12(2), ac

(i) pan fo'n gymwys, unrhyw daliad atodol a wneir am y carcas yn unol â rheoliad 12(3).

(3) Rhaid i'r gweithredwr gadw pob cofnod a lunnir o dan baragraff (1) am o leiaf 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r carcas y mae'r cofnod hwnnw'n ymwneud ag ef wedi ei ddosbarthu ynddi.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "oen tymor newydd" yw dafad sy'n llai na 12 mis oed ac a asesir gan ddosbarthwr trwyddedig ei fod o'r cnwd o ŵyn a anwyd o fis Ionawr i fis Medi yn y flwyddyn galendr gyfredol neu a anwyd o fis Hydref i fis Rhagfyr yn y flwyddyn galendr flaenorol, a

(b) ystyr "oen hen dymor" yw dafad sy'n llai na 12 mis oed nad yw'n oen tymor newydd.

Record keeping

11.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must compile and keep a record of the information specified in paragraph (2) for each carcass which is classified in that slaughterhouse.

(2) The information which must be recorded under this paragraph is—

(a) the date of slaughter,

(b) the kill number allocated under regulation 8,

(c) the classification record made under regulation 5(5),

(d) whether the animal from which the carcass was obtained belonged to the new season lamb or the old season lamb category,

(e) confirmation that any communication to a supplier required by regulation 13 has been given,

(f) where a classification was carried out visually, the name, signature and classification licence serial number of the licensed classifier who carried out the classification,

(g) where classification was carried out by an automated classification method, the name, signature and classification licence serial number of the person who oversaw the classification,

(h) where applicable, the market price determined in accordance with regulation 12(2), and

(i) where applicable, any supplementary payment made for the carcass in accordance with regulation 12(3).

(3) The operator must retain each record compiled under paragraph (1) for at least 12 months from the end of the calendar year in which the carcass to which that record relates is classified.

(4) In this regulation—

(a) "new season lamb" means a sheep aged less than 12 months which is assessed by a licensed classifier to be from the lamb crop born January to September in the current calendar year or born October to December in the previous calendar year, and

(b) "old season lamb" means a sheep aged less than 12 months which is not a new season lamb.

Cofnodi prisiau carcasau defaid sy'n llai na 12 mis oed

12.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau, ar gyfer pob dafad a brynir ar sail pwysau marw, sy'n llai na 12 mis oed ar adeg ei chigydda yn y lladd-dy hwnnw, fod pris y farchnad o ran y carcas yn cael ei gofnodi.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "pris y farchnad" yw'r pris a gyfrifir gan y lladd-dy rheoleiddiedig ar sail dosbarthiad, pwysau, neu nodweddion eraill y carcas a bennwyd ymlaen llaw—

(a) a fynegir mewn ceiniog y cilo,

(b) ac eithrio TAW, ac

(c) cyn unrhyw ddidyniadau ar gyfer costau yr eir iddynt gan y lladd-dy.

(3) Os telir unrhyw daliad atodol am garcas ar ôl cyfrifo pris y farchnad iddo, rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig gofnodi swm y taliad atodol hwnnw a'r rheswm dros y taliad hwnnw, ynghyd â'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1).

Recording of prices for carcasses of sheep aged less than 12 months

12.—(1) The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that for each sheep purchased on a deadweight basis, which is aged less than 12 months at the time of its slaughter at that slaughterhouse, the market price of the carcass is recorded.

(2) In paragraph (1), "market price" means the price calculated by the regulated slaughterhouse on the basis of classification, weight, or other pre-determined features of the carcass—

(a) expressed in pence per kilo,

(b) excluding VAT, and

(c) before any deductions for costs incurred by the slaughterhouse.

(3) If any supplementary payment is paid for a carcass after its market price has been calculated, the operator of a regulated slaughterhouse must record the amount of that supplementary payment and the reason for that payment, together with the information required under paragraph (1).

Cyfathrebu â'r cyflenwr

13. Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig gyfathrebu'n ysgrifenedig â chyflenwr pob dafad a brynir ar sail pwysau marw, sy'n llai na 12 mis oed ar adeg ei chigydda yn y lladd-dy hwnnw, y canlynol—

(a) yr wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion a gedwir o dan reoliad 11(2)(a) i (c), a

(b) pan fo'n gymwys, datganiad bod dosbarthiad wedi ei gynnal drwy ddefnyddio dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig.

Communication to the supplier

13. The operator of a regulated slaughterhouse must communicate in writing to the supplier of each sheep purchased on a deadweight basis, which is aged less than 12 months at the time of its slaughter at that slaughterhouse, the following—

(a) the information contained in the records retained under regulation 11(2)(a) to (c), and

(b) where applicable, a statement that classification was carried out using an authorised automated classification method.

RHAN 3

Trwyddedau

PART 3

Licences

Trwydded i ddosbarthu carcasau drwy edrych arnynt

14.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi trwydded i ddosbarthu carcasau defaid drwy edrych arnynt i unrhyw berson sy'n gwneud cais am drwydded o'r fath ac y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) ei fod yn meddu ar gymwysterau addas, a

(b) ei fod fel arall yn berson addas a phriodol,

i gyflawni'r rôl honno.

Licence to carry out visual classification

14.—(1) The Welsh Ministers may grant a licence to carry out visual classifications of sheep carcasses to any person who applies for such a licence and who the Welsh Ministers are satisfied—

(a) is suitably qualified, and

(b) is otherwise a fit and proper person,

to carry out that role.

(2) Caniateir rhoi trwydded o dan baragraff (1) yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol at ddibenion dosbarthu carcasau defaid drwy edrych arnynt.

(2) A licence under paragraph (1) may be granted subject to such terms and conditions as the Welsh Ministers consider appropriate for the purposes of carrying out a visual classification of sheep carcasses.

Atal dros dro, dirymu neu newid trwydded i ddosbarthu carcasau drwy edrych arnynt

15.—(1) Pan fo paragraffau (2), (3) neu (4) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru, yn ogystal â'r camau sydd ar gael o dan Ran 7, atal dros dro, dirymu neu newid telerau ac amodau trwydded a roddwyd i berson o dan reoliad 14.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo, o ganlyniad i'r gwiriadau a gynhelir o dan reoliad 23 neu wrth arfer pwerau o dan reoliadau 25 neu 26, Gweinidogion Cymru yn nodi nifer sylweddol o—

(a) cyflwyniadau anghywir,

(b) dosbarthiadau anghywir,

(c) dulliau adnabod anghywir, neu

(d) labelau anghywir,

y gellir eu priodoli i'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (1) wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau ac amodau trwydded a roddwyd iddo o dan reoliad 14.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn berson addas a phriodol mwyach i ddosbarthu carcasau defaid.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn sy'n arwain at hawl i apelio o dan reoliad 18, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi gwybod i'r person am y penderfyniad yn ysgrifenedig,

(b) rhoi rhesymau dros y penderfyniad, ac

(c) rhoi gwybod i'r person am yr hawl i apelio o dan reoliad 18,

o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y penderfyniad.

Suspension, revocation or alteration of licence to carry out visual classification

15.—(1) Where paragraphs (2), (3) or (4) apply, the Welsh Ministers may, as well as the actions available under Part 7, suspend, revoke or alter the terms and conditions of a licence granted to a person under regulation 14.

(2) This paragraph applies where, as a result of the checks carried out under regulation 23 or when exercising powers under regulations 25 or 26, the Welsh Ministers identify a significant number of incorrect—

(a) presentations,

(b) classifications,

(c) identifications, or

(d) labellings,

attributable to the person referred to in paragraph (1).

(3) This paragraph applies where the person referred to in paragraph (1) has contravened any of the terms and conditions of a licence granted to them under regulation 14.

(4) This paragraph applies where the Welsh Ministers are satisfied that the person referred to in paragraph (1) is no longer a fit and proper person to carry out classification of sheep carcasses.

(5) Where the Welsh Ministers make any decision in relation to a licence under this regulation which gives rise to a right of appeal under regulation 18, the Welsh Ministers must—

(a) inform the person of the decision in writing,

(b) give reasons for the decision, and

(c) inform the person of the right of appeal under regulation 18,

within a period of 28 days beginning on the day on which the decision is made.

Trwydded i ddefnyddio dulliau dosbarthu awtomataidd awdurdodedig

16.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff Gweinidogion Cymru, ar gais, roi trwydded i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sy'n caniatáu defnyddio dulliau dosbarthu awtomataidd awdurdodedig ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Pan fo gweithredwr yn gwneud cais am drwydded a ddisgrifir ym mharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru, cyn rhoi unrhyw drwydded o'r fath, fod wedi eu bodloni—

(a) bod y dull dosbarthu awtomataidd y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a

(b) bod y ffordd y caiff ei weithredu o fewn y lladd-dy rheoleiddiedig,

yn bodloni gofynion rheoliad 19(1) ac Atodlen 2.

(3) Caniateir rhoi trwydded o dan baragraff (1) yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Atal dros dro, dirymu neu newid trwydded i ddefnyddio dulliau dosbarthu awtomataidd awdurdodedig

17.—(1) Pan fo paragraffau (2), (3) neu (4) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru, yn ogystal â'r camau sydd ar gael o dan Ran 7, atal dros dro, dirymu neu newid telerau ac amodau trwydded a roddwyd i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig o dan reoliad 16.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, o ganlyniad i wiriadau yn y fan a'r lle a gynhelir o dan reoliad 23 neu wrth arfer pwerau o dan reoliadau 25 neu 26, yn nodi bod y dull dosbarthu awtomataidd, neu'r ffordd y caiff ei weithredu yn y lladd-dy, wedi cynhyrchu nifer sylweddol o —

(a) cyflwyniadau anghywir,

(b) dosbarthiadau anghywir,

(c) dulliau adnabod anghywir, neu

(d) labelau anghywir.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r gweithredwr y cyfeirir ato ym mharagraff (1) wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau ac amodau trwydded a roddwyd iddo o dan reoliad 16.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw gofynion y Rheoliadau hyn wedi eu bodloni mwyach fel arall mewn cysylltiad â'r dull dosbarthu awtomataidd neu'r ffordd y caiff ei weithredu yn y lladd-dy.

Licence to use authorised automated classification methods

16.—(1) Subject to paragraph (2), the Welsh Ministers may on application grant to an operator of a regulated slaughterhouse a licence permitting the use of authorised automated classification methods for classification of sheep carcasses at that slaughterhouse.

(2) Where an operator applies for a licence described in paragraph (1), the Welsh Ministers must, before granting any such licence, be satisfied that—

(a) the automated classification method to which the application relates, and

(b) the manner of its operation within the regulated slaughterhouse,

meet the requirements of regulation 19(1) and Schedule 2.

(3) A licence under paragraph (1) may be granted subject to such terms and conditions as the Welsh Ministers considers appropriate.

Suspension, revocation or alteration of licence to use authorised automated classification methods

17.—(1) Where paragraphs (2), (3) or (4) apply, the Welsh Ministers may, as well as the actions available under Part 7, suspend, revoke or alter the terms and conditions of a licence granted to an operator of a regulated slaughterhouse under regulation 16.

(2) This paragraph applies where, as a result of on-the-spot checks carried out under regulation 23 or when exercising powers under regulations 25 or 26, the Welsh Ministers identify that the automated classification method, or the manner of its operation within the slaughterhouse, has generated a significant number of incorrect—

(a) presentations,

(b) classifications,

(c) identifications, or

(d) labellings.

(3) This paragraph applies where the operator referred to in paragraph (1) has contravened any of the terms and conditions of a licence granted to them under regulation 16.

(4) This paragraph applies where the Welsh Ministers consider that the requirements of these Regulations are otherwise no longer met in respect of the automated classification method or the manner of its operation within the slaughterhouse.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn sy'n arwain at hawl i apelio o dan reoliad 18, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi gwybod i'r gweithredwr am y penderfyniad yn ysgrifenedig,

(b) rhoi rhesymau dros y penderfyniad, ac

(c) rhoi gwybod i'r gweithredwr am yr hawl i apelio o dan reoliad 18,

o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y penderfyniad.

Apelau ynghylch trwyddedau

18.—(1) Caiff person apelio yn ysgrifenedig i berson a benodir at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i berson sy'n apelio o dan baragraff (1) apelio o fewn cyfnod o 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y penderfyniad ei hysbysu iddo, neu y gosodir y teler neu'r amod.

(3) Caniateir gwneud apêl o dan baragraff (1) yn erbyn—

(a) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cais gan y person hwnnw am drwydded o dan reoliad 14 neu 16,

(b) teler neu amod a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar roi trwydded o dan reoliad 14 neu 16, neu

(c) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i atal dros dro, dirymu neu newid trwydded o dan reoliad 15 neu 17.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person a benodir ynglŷn â'r penderfyniad.

(5) Rhaid i'r person a benodir—

(a) ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru, a

(b) cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru gydag—

(i) eu casgliadau ar yr apêl, a

(ii) argymhelliad ynghylch y modd y dylai'r apêl gael ei phenderfynu yn derfynol gan Weinidogion Cymru.

(6) Yna rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gwneud penderfyniad terfynol,

(b) hysbysu'r apelydd yn ysgrifenedig am—

(i) y penderfyniad hwnnw, a

(ii) y rhesymau drosto, ac

(c) os yw'r apêl wedi ei chadarnhau, sicrhau bod yr ataliad dros dro, y dirymiad neu'r newid perthnasol i'r drwydded a fu'n destun yr apêl yn cael ei wrthdroi.

(5) Where the Welsh Ministers make any decision in relation to a licence under this regulation which gives rise to a right of appeal under regulation 18, the Welsh Ministers must—

(a) inform the operator of the decision in writing,

(b) give reasons for the decision, and

(c) inform the operator of the right of appeal under regulation 18,

within a period of 28 days beginning on the day on which the decision is made.

Appeals regarding licences

18.—(1) A person may appeal in writing to a person appointed for that purpose by the Welsh Ministers.

(2) A person appealing under paragraph (1) must appeal within a period of 60 days beginning on the day on which the decision is notified to them, or the term or condition is imposed.

(3) An appeal under paragraph (1) may be made against—

(a) a decision by the Welsh Ministers to reject an application by that person for a licence under regulation 14 or 16,

(b) a term or condition imposed by the Welsh Ministers on the grant of a licence under regulation 14 or 16, or

(c) a decision by the Welsh Ministers to suspend, revoke or alter a licence under regulation 15 or 17.

(4) The Welsh Ministers may also make written representations to the appointed person concerning the decision.

(5) The appointed person must—

(a) consider the appeal and any representations made by the Welsh Ministers, and

(b) report in writing to the Welsh Ministers with—

(i) their conclusions on the appeal, and

(ii) a recommendation as to the manner in which the appeal should be finally determined by the Welsh Ministers.

(6) The Welsh Ministers must then—

(a) make a final determination,

(b) notify the appellant in writing of—

(i) that determination, and

(ii) the reasons for it, and

(c) if the appeal has been upheld, ensure that the relevant suspension, revocation or alteration of the licence which has been the subject of the appeal is reversed.

RHAN 4

Awdurdodiadau a gofynion eraill ar gyfer defnyddio dulliau dosbarthu awtomataidd

Awdurdodi dulliau dosbarthu awtomataidd ar gyfer carcasau

19.—(1) Caiff perchennog dull dosbarthu awtomataidd ofyn i Weinidogion Cymru awdurdodi'r dull hwnnw i'w ddefnyddio mewn lladd-dai rheoleiddiedig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu cais o dan baragraff (1)—

(a) os yw'r dull dosbarthu awtomataidd wedi bod yn destun y broses prawf awdurdodi gyfan a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2, a

(b) os yw dadansoddiad o ganlyniadau'r prawf yn unol â Rhan 2 o Atodlen 2 yn dangos ei fod wedi bodloni'r lefel o gywirdeb sy'n ofynnol o dan y Rhan honno.

(3) Rhaid i'r awdurdodiad ar gyfer dull dosbarthu awtomataidd nodi'r fanyleb carcas a'r cyflwyniad hongian a ddefnyddir yn y broses brawf ar gyfer y dull hwnnw a'i gwneud yn ofynnol i bob defnydd o'r dull yn y dyfodol o dan reoliad 5 ailadrodd yr un fanyleb carcas a chyflwyniad hongian.

(4) Caniateir rhoi'r awdurdodiad ar gyfer dull dosbarthu awtomataidd, yn ychwanegol at y gofyniad o dan baragraff (3), yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i berchennog dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig, neu unrhyw weithredwyr sy'n ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthu o dan y Rheoliadau hyn, sicrhau i'r graddau y gallant wneud hynny fod unrhyw ofyniad o dan baragraff (3) neu (4) yn cael ei fodloni.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyflwyniad hongian" yw'r ffordd y caiff carcas ei hongian o fachau a chambrenni mewn lladd-dy.

Darpariaethau ychwanegol ar ddosbarthu drwy ddulliau dosbarthu awtomataidd

20.—(1) Os defnyddir dull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig mewn lladd-dy rheoleiddiedig yn unol â thrwydded a roddwyd o dan reoliad 16, rhaid i weithredwr y lladd-dy hwnnw gadw cofnod rheolaethu dyddiol o weithrediad y dull hwnnw.

PART 4

Authorisations and other requirements for use of automated classification methods

Authorisation of automated classification methods for carcasses

19.—(1) The proprietor of an automated classification method may request that the Welsh Ministers authorise that method for use in regulated slaughterhouses.

(2) The Welsh Ministers may grant a request under paragraph (1) if—

(a) the automated classification method has been subjected to the entire authorisation test process set out in Part 1 of Schedule 2, and

(b) analysis of the test results in accordance with Part 2 of Schedule 2 show that it has met the degree of accuracy required under that Part.

(3) The authorisation for an automated classification method must stipulate the carcass specification and hanging presentation used in the test process for that method and require that all future use of the method under regulation 5 replicates the same carcass specification and hanging presentation.

(4) The authorisation for an automated classification method may, in addition to the requirement under paragraph (3), be granted subject to such other terms and conditions as the Welsh Ministers consider appropriate.

(5) The proprietor of an authorised automated classification method, or any operators using it for classification under these Regulations, must ensure to the extent they are able to do so that any requirement under paragraph (3) or (4) is met.

(6) In this regulation, "hanging presentation" means the way that a carcass is hung from hooks and gambrels in a slaughterhouse.

Additional provisions on classification by automated classification methods

20.—(1) If an authorised automated classification method is used in a regulated slaughterhouse pursuant to a licence granted under regulation 16, the operator of that slaughterhouse must keep a daily control record of the functioning of that method.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid cadw'r cofnod rheolaethu dyddiol am o leiaf 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y gwneir y cofnod ynddi.

(3) Rhaid i'r cofnod rheolaethu dyddiol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gynnwys manylion—

(a) unrhyw ddiffygion a gododd wrth weithredu'r dull dosbarthu awtomataidd, a

(b) unrhyw gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r diffygion hynny.

(2) Where paragraph (1) applies, the daily control record must be retained for at least 12 months from the end of the calendar year in which the record is made.

(3) The daily control record referred to in paragraph (1) must include details of—

(a) any shortcomings encountered in the operation of the automated classification method, and

(b) any actions taken in respect of those shortcomings.

RHAN 5

Adrodd am brisiau'r farchnad a data cysylltiedig o ran carcasau a ddosbarthwyd

Adrodd am brisiau'r farchnad a data cysylltiedig i berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru

21. Rhaid i weithredwr lladd-dy rheoleiddiedig sicrhau, ar gyfer pob dafad a brynir ar sail pwysau marw, ac sy'n llai na 12 mis oed ar adeg ei chigydda yn y lladd-dy hwnnw, fod gwybodaeth a gedwir ar gyfer carcas y ddafad honno yn cael ei hadrodd yn ysgrifenedig i berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw, fel a ganlyn—

(a) rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn cofnodion a gedwir o dan reoliad 11(2)(a) i (d) ac (h) gael ei hadrodd erbyn nos Lun bob wythnos ar gyfer anifeiliaid a gigyddwyd rhwng y dydd Llun a'r dydd Sul blaenorol yn gynhwysol, a

(b) rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn cofnodion a gedwir o dan reoliad 11(2)(i) gael ei hadrodd o fewn saith niwrnod o ddiwedd y chwarter(**1**) o'r flwyddyn ariannol honno y gwnaed y taliad atodol ynddi.

PART 5

Reporting of the market prices and related data of classified carcasses

Reporting of market price and related data to a person authorised by the Welsh Ministers

21. The operator of a regulated slaughterhouse must ensure that, for each sheep purchased on a deadweight basis, and aged less than 12 months at the time of its slaughter in that slaughterhouse, information retained for the carcass of that sheep is reported in writing to a person authorised by the Welsh Ministers for that purpose, as follows—

(a) the information contained in records retained under regulation 11(2)(a) to (d) and (h) must be reported by Monday evening each week for animals slaughtered between the previous Monday and Sunday inclusive, and

(b) the information contained in records retained under regulation 11(2)(i) must be reported within seven days from the end of the quarter(**1**) of that financial year during which the supplementary payment was made.

RHAN 6

Prosesu gwybodaeth

Prosesu gwybodaeth ac at ba ddibenion y caniateir cynnal prosesu

22.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn ymwneud â gwybodaeth a hysbysir neu a adroddir i Weinidogion Cymru, neu berson a awdurdodir gan Weinidogion Cymru, o dan reoliadau 3(2), 4 neu 21.

PART 6

Processing of information

Processing of information and the purposes for which processing may be carried out

22.—(1) This regulation relates to information notified or reported to the Welsh Ministers, or a person authorised by the Welsh Ministers, under regulations 3(2), 4 or 21.

(**1**) Mae cyfeiriad at "diwedd y chwarter" mewn perthynas â blwyddyn ariannol yn golygu 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth.

(**1**) Reference to "end of the quarter" in relation to financial year means 30 June, 30 September, 31 December or 31 March.

(2) Y dibenion y caniateir prosesu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) atynt(**1**) yw—

(a) helpu personau mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth(**2**) i reoli risgiau neu anwadalrwydd y farchnad,

(b) hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth, ac

(c) monitro neu ddadansoddi marchnadoedd sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth.

(3) Y mathau o brosesu y caniateir eu cynnal gyda'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yw—

(a) casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro neu storio,

(b) diwygio neu newid,

(c) adalw, ymgynghori neu ddefnyddio,

(d) datgelu drwy drosglwyddo, lledaenu neu sicrhau bod yr wybodaeth ar gael fel arall,

(e) cysoni neu gyfuno, neu

(f) cyfyngu, dileu neu ddinistrio.

(4) Ni chaniateir i wybodaeth a ddarperir o dan reoliad 21 gael ei datgelu o dan baragraff (3)(d) ond ar ffurf ddienw.

(5) Caniateir i wybodaeth a ddarperir o dan reoliadau 3(2) neu 4 gael ei datgelu o dan baragraff (3)(d) ar unrhyw ffurf.

(2) The purposes for which the information referred to in paragraph (1) may be processed(**1**) are—

(a) helping persons in agri-food supply chains(**2**) to manage risks or market volatility,

(b) promoting transparency or fairness in agri-food supply chains, and

(c) monitoring, or analysing, markets connected with agri-food supply chains.

(3) The types of processing which may be carried out with the information referred to in paragraph (1) are—

(a) collection, recording, organisation, structuring or storage,

(b) adaptation or alteration,

(c) retrieval, consultation or use,

(d) disclosure by transmission, dissemination or otherwise making available,

(e) alignment or combination, or

(f) restriction, erasure or destruction.

(4) Information provided under regulation 21 may only be disclosed under paragraph (3)(d) in anonymised form.

(5) Information provided under regulations 3(2) or 4 may be disclosed under paragraph (3)(d) in any form.

RHAN 7

Gorfodi

Gwiriadau yn y fan a'r lle

23.—(1) Rhaid i swyddog awdurdodedig o bryd i'w gilydd gynnal gwiriadau o dan y rheoliad hwn ("gwiriadau yn y fan a'r lle") ym mhob lladd-dy rheoleiddiedig.

(2) Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gynnal y gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n ofynnol o dan baragraff (1) heb rybudd ymlaen llaw a rhaid iddo wirio cydymffurfedd â'r Rheoliadau hyn yn gyffredinol ac o leiaf mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cyflwyno, dosbarthu, pwyso, adnabod a labelu'r carcasau, a

PART 7

Enforcement

On-the-spot checks

23.—(1) An authorised officer must from time to time carry out checks under this regulation ("on-the-spot checks") in all regulated slaughterhouses.

(2) The authorised officer must carry out the on-the-spot checks required under paragraph (1) without prior warning and must check compliance with these Regulations generally and at least in respect of—

(a) the presentation, classification, weighing, identification and labelling of the carcasses, and

(**1**) Diffinnir "prosesu" mewn perthynas â gwybodaeth yn adran 31(11) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'i ystyr yw "gweithrediad, neu gyfres o weithrediadau sy'n cael ei wneud neu eu gwneud ar wybodaeth, neu gyfres o wybodaeth".

(**2**) Diffinnir "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth" yn adran 26 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

(**1**) "Processing" in relation to information is defined in section 31(11) of the Agriculture (Wales) Act 2023 and means "an operation, or set of operations, which is performed on information, or on sets of information".

(**2**) "Agri-food supply chain" is defined in section 26 of the Agriculture (Wales) Act 2023.

(b) pan fo'n gymwys—

(i) cywirdeb parhaus unrhyw ddull dosbarthu awtomataidd awdurdodedig a ddefnyddir yn y lladd-dy a'r ffordd y caiff ei weithredu, a

(ii) y cofnodion rheolaethu dyddiol y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(1).

Gofynion sylfaenol gwiriadau yn y fan a'r lle

24.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle ar gyfer pob lladd-dy rheoleiddiedig.

(2) Y gofynion sylfaenol y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw gofynion sy'n ymwneud ag—

(a) amlder y gwiriadau yn y fan a'r lle y mae rhaid eu cynnal, a

(b) nifer lleiaf y carcasau sydd i'w gwirio yn ystod y gwiriadau yn y fan a'r lle hynny,

ar sail yr asesiad risg y cyfeirir ato ym mharagraff (3).

(3) At ddibenion paragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru gynnal asesiad risg y mae rhaid iddo, yn benodol, roi sylw i—

(a) nifer y defaid a gigyddir yn y lladd-dy rheoleiddiedig o dan sylw, a

(b) y canfyddiadau yn ystod unrhyw wiriadau yn y fan a'r lle blaenorol yn y lladd-dy hwnnw.

Pwerau mynediad

25.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3) a (6), caiff swyddog awdurdodedig, at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (4), fynd i—

(a) lladd-dy rheoleiddiedig, neu

(b) unrhyw fangre gysylltiedig a feddiannir gan, neu sy'n eiddo i, y lladd-dy hwnnw, ei weithredwr neu ei ddosbarthwr trwyddedig, lle y gall carcasau defaid gael eu trin neu lle y gall cofnodion sy'n ymwneud â'r carcasau hynny gael eu cadw.

(2) Oni chaniateir iddo wneud hynny gan warant a roddir o dan baragraff (7), ni chaiff swyddog awdurdodedig fynd i fangre o dan baragraff (1) ond ar adeg resymol.

(3) Pan fo swyddog awdurdodedig yn mynd i fangre o dan baragraff (1), rhaid iddo gyflwyno naill ai—

(a) os yw'n mynd i fangre o dan warant a roddir o dan baragraff (7), y warant, neu

(b) where applicable—

(i) the ongoing accuracy of any authorised automated classification method used in the slaughterhouse and the manner of its operation, and

(ii) the daily control records referred to in regulation 20(1).

Minimum requirements of on-the-spot checks

24.—(1) The Welsh Ministers must determine the minimum requirements for on-the-spot checks for each regulated slaughterhouse.

(2) The minimum requirements referred to in paragraph (1) are requirements relating to—

(a) the frequency of on-the-spot checks which must be carried out, and

(b) the minimum number of carcasses to be checked during those on-the-spot checks,

on the basis of the risk assessment referred to in paragraph (3).

(3) For the purposes of paragraph (1), the Welsh Ministers must carry out a risk assessment which must, in particular, take into account—

(a) the number of sheep slaughtered in the regulated slaughterhouse concerned, and

(b) the findings during any previous on-the-spot checks in that slaughterhouse.

Powers of entry

25.—(1) Subject to paragraphs (2), (3) and (6), an authorised officer may, for a purpose described in paragraph (4), enter—

(a) a regulated slaughterhouse, or

(b) any associated premises occupied or owned by that slaughterhouse, its operator or licensed classifier, in which carcasses of sheep could be handled or records relating to those carcasses could be kept.

(2) Unless permitted by a warrant granted under paragraph (7), an authorised officer may only enter premises under paragraph (1) at a reasonable hour.

(3) Where an authorised officer enters a premises under paragraph (1), they must present either—

(a) if entering under a warrant granted under paragraph (7), the warrant, or

(b) os nad yw'n mynd i fangre o dan warant a roddir o dan baragraff (7), cadarnhad ysgrifenedig wedi ei ddilysu'n briodol o'r pwerau y mae'n mynd i'r fangre oddi tanynt.

(4) Caiff swyddog awdurdodedig fynd i fangre o dan baragraff (1) i ganfod pa un—

(a) a yw unrhyw doriad o'r Rheoliadau hyn wedi ei gyflawni, neu

(b) a oes unrhyw dystiolaeth yn y fangre honno o unrhyw doriad o'r fath.

(5) Caiff y swyddog awdurdodedig fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol gydag ef.

(6) Os mai annedd breifat yw'r fangre y cyfeirir ati ym mharagraff (1), ni chaiff swyddog awdurdodedig fynd iddi ond os yw ynad heddwch yn caniatáu mynediad iddi drwy warant yn unol â pharagraff (7).

(7) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i swyddog awdurdodedig fynd i unrhyw fangre, drwy rym rhesymol os bydd angen hynny, os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd i'r fangre at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (4), a

(b) bod unrhyw un neu ragor o'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

(i) bod y fangre yn annedd breifat,

(ii) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu y rhagwelir y caiff ei wrthod, ac yn y naill achos neu'r llall fod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd,

(iii) y byddai gofyn am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn tanseilio diben mynd i'r fangre,

(iv) bod yr achos yn achos brys, neu

(v) nad yw'r fangre wedi ei meddiannu, neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(8) Mae gwarant a roddir o dan y rheoliad hwn yn parhau mewn grym am dri mis ar ôl y dyddiad y caiff ei dyroddi.

(9) Rhaid i swyddog awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu fangre y mae'r meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd ar adeg mynd iddi.

(b) if not entering under a warrant granted under paragraph (7), duly authenticated written confirmation of the powers under which they are entering.

(4) An authorised officer may enter premises under paragraph (1) to ascertain whether—

(a) any breach of these Regulations has been committed, or

(b) there is on those premises any evidence of such a breach.

(5) The authorised officer may be accompanied by such other persons as the officer considers necessary.

(6) If the premises referred to in paragraph (1) are a private dwelling, an authorised officer may only enter them if a justice of the peace permits entry to them by warrant in accordance with paragraph (7).

(7) A justice of the peace may by signed warrant permit an authorised officer to enter any premises, if necessary by reasonable force, if satisfied on sworn information in writing that—

(a) there are reasonable grounds for entering into the premises for a purpose described in paragraph (4), and

(b) any of the following conditions are met—

(i) the premises are a private dwelling,

(ii) admission to the premises has been refused, or a refusal is anticipated, and in either case notice of intention to apply for a warrant has been given to the occupier,

(iii) asking for admission, or the giving of such notice, would defeat the object of the entry,

(iv) the case is one of urgency, or

(v) the premises are unoccupied, or the occupier is temporarily absent.

(8) A warrant granted under this regulation continues in force for three months after the date on which it is issued.

(9) An authorised officer who enters any unoccupied premises, or premises from which the occupier is temporarily absent, must leave the premises as effectively secured against unauthorised entry as they were at the time of entry.

Pwerau swyddogion awdurdodedig

26. Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i fangre o dan reoliad 25, yn benodol—

(a) ei gwneud yn ofynnol iddo gael mynediad at garcas dafad neu ran o garcas o'r fath, ei archwilio, tynnu ffotograffau ohono neu wneud cofnod ohono fel arall,

(b) ei gwneud yn ofynnol iddo gael mynediad at unrhyw ddogfennau, unrhyw gofnodion neu unrhyw ddeunyddiau, ar ba bynnag ffurf y'u cedwir, sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn, y gwyddys neu yr amheuir bod gweithredwr neu ddosbarthwr trwyddedig wedi eu cadw, archwilio'r dogfennau, y cofnodion neu'r deunyddiau hynny, eu copïo neu eu hargraffu, neu symud ymaith ddogfennau, cofnodion neu ddeunyddiau o'r fath er mwyn galluogi eu copïo neu eu cadw fel tystiolaeth,

(c) ei gwneud yn ofynnol iddo gael mynediad at unrhyw beiriant, unrhyw gyfrifiadur neu unrhyw gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ei archwilio, tynnu ffotograffau ohono a gwirio ei weithrediad, neu

(d) ei gwneud yn ofynnol i gopïau o unrhyw ddogfennau, unrhyw gofnodion neu unrhyw ddeunyddiau neu ddarnau o unrhyw ddogfennau, unrhyw gofnodion neu unrhyw ddeunyddiau gael eu cynhyrchu ar ffurf y gellir eu symud ymaith.

Powers of authorised officers

26. An authorised officer entering premises under regulation 25 may, in particular—

(a) require access to, inspect, photograph or otherwise make a record of a sheep carcass or part of such a carcass,

(b) require access to, inspect, copy or print any documents, records or materials, in whatever form they are held, relevant to these Regulations, which an operator or licensed classifier is known or suspected to have kept, or remove such documents, records or materials to enable them to be copied or retained as evidence,

(c) require access to, inspect, photograph and check the operation of any machine, computer or apparatus which is or has been in use in connection with these Regulations, or

(d) require that copies of or extracts from any documents, records or materials be produced in a form in which they may be taken away.

Hysbysiadau cydymffurfio

27.—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi torri'r Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno(**1**) hysbysiad ("hysbysiad cydymffurfio") i'r person hwnnw yn unol â'r paragraff a ganlyn.

(2) Rhaid i hysbysiad cydymffurfio gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) seiliau Gweinidogion Cymru dros gredu bod achos o dorri'r Rheoliadau hyn wedi ei gyflawni,

(b) y mater sy'n ffurfio'r toriad,

(c) y camau y mae rhaid i'r person eu cymryd er mwyn unioni'r toriad,

Compliance notices

27.—(1) If the Welsh Ministers have reason to believe that a person has committed a breach of these Regulations, the Welsh Ministers may serve(**1**) that person with a notice ("a compliance notice") in accordance with the following paragraph.

(2) A compliance notice must contain the following information—

(a) the Welsh Ministers' grounds for believing that a breach of these Regulations has been committed,

(b) the matter that constitutes the breach,

(c) the action that the person must take in order to rectify the breach,

(**1**) Dylid darllen cyfeiriadau at "cyflwyno" yn y rheoliadau hyn yn unol ag adrannau 13 a 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**1**) References to "serve" in these regulations should be read in accordance with section 13 and 14 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

(d) terfyn amser o ddim llai na 14 o ddiwrnodau o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad y mae rhaid cymryd y camau hyn o'i fewn,

(e) manylion yr hawl i apelio a roddir gan reoliad 29, ac

(f) ym mha ffordd, ac o fewn pa gyfnod, y caniateir gwneud apêl.

(3) Caniateir i hysbysiad cydymffurfio a ddyroddir o dan y rheoliad hwn gael ei ddirymu neu ei amrywio gan Weinidogion Cymru yn yr achos pan fo hysbysiad cosb ariannol yn cael ei ddyroddi wedi hynny mewn cysylltiad â'r un toriad, neu mewn unrhyw achos arall.

Hysbysiadau cosb ariannol

28.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol bod person wedi torri'r Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad cosb ariannol") i'r person hwnnw yn unol â pharagraff (3).

(2) Caiff cosb a osodir gan hysbysiad cosb ariannol fod o unrhyw swm hyd at uchafswm o £50,000.

(3) Rhaid i hysbysiad cosb ariannol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) seiliau Gweinidogion Cymru dros gredu bod achos o dorri'r Rheoliadau hyn wedi ei gyflawni,

(b) y mater sy'n ffurfio'r toriad,

(c) swm y gosb,

(d) y modd y mae rhaid talu'r gosb, a'r cyfnod y mae rhaid i'r gosb gael ei thalu ynddo,

(e) manylion yr hawl i apelio a roddir gan reoliad 29,

(f) y modd y caniateir gwneud apêl, a'r cyfnod y caniateir i apêl gael ei gwneud ynddo, ac

(g) canlyniadau talu'n hwyr neu fethu â thalu, gan gynnwys atebolrwydd am log o dan baragraff (5).

(4) Caniateir i hysbysiad cosb ariannol a ddyroddir o dan y rheoliad hwn gael ei ddirymu neu ei amrywio gan Weinidogion Cymru.

(5) Mae llog yn daladwy ar swm unrhyw gosb ariannol am bob diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer talu a bennir yn yr hysbysiad hyd at y diwrnod y telir yn llawn y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb ariannol.

(6) At ddibenion paragraff (5), mae'r gyfradd llog sy'n gymwys ar unrhyw ddiwrnod un pwynt canran yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

(d) a time limit of not less than 14 days from the date of the notice being served within which this action must be taken,

(e) details of the right of appeal conferred by regulation 29, and

(f) the manner in which, and the period within which, an appeal may be made.

(3) A compliance notice issued under this regulation may be revoked or varied by the Welsh Ministers in the case that a monetary penalty notice is subsequently issued in respect of the same breach, or in any other case.

Monetary penalty notices

28.—(1) If the Welsh Ministers are satisfied beyond reasonable doubt that a person has committed a breach of these Regulations, the Welsh Ministers may serve that person with a notice (a "monetary penalty notice") in accordance with paragraph (3).

(2) A penalty imposed by a monetary penalty notice may be of any amount up to a maximum of £50,000.

(3) A monetary penalty notice must contain the following information—

(a) the Welsh Ministers' grounds for believing that a breach of these Regulations has been committed,

(b) the matter that constitutes the breach,

(c) the amount of the penalty,

(d) the manner in which, and the period within which, the penalty must be paid,

(e) details of the right of appeal conferred by regulation 29,

(f) the manner in which, and the period within which, an appeal may be made, and

(g) the consequences of late payment or failure to pay, including liability for interest under paragraph (5).

(4) A monetary penalty notice issued under this regulation may be revoked or varied by the Welsh Ministers.

(5) Interest is payable on the amount of any monetary penalty for each day beginning with the day after the last day for payment specified in the notice to the day on which the sum specified in the monetary penalty notice is paid in full.

(6) For the purposes of paragraph (5), the rate of interest applicable on any day is one percentage point above the Bank of England base rate.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "cyfradd sylfaenol Banc Lloegr" yw—

(a) ac eithrio pan fo is-baragraff (b) yn gymwys, y gyfradd a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor Polisi Ariannol(**1**) Banc Lloegr fel y gyfradd fasnachu swyddogol, sef y gyfradd y mae'r Banc yn fodlon ei defnyddio mewn trafodiadau i ddarparu hylifedd byrdymor yn y marchnadoedd arian, neu

(b) pan fo gorchymyn o dan adran 19 o Ddeddf Banc Lloegr 1998 (pwerau wrth gefn) mewn grym, unrhyw gyfradd gyfwerth a bennir gan y Trysorlys o dan yr adran honno.

(8) Mae symiau sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn adenilladwy fel dyled sifil.

Apelau yn erbyn hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau cosb ariannol

29.—(1) Caiff y person y cyflwynir hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad cosb ariannol iddo apelio yn ei erbyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(2) Y seiliau dros apelio o dan baragraff (1) yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol,

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith,

(c) bod gwall gweithdrefnol sylweddol wedi digwydd, neu

(d) yn achos hysbysiad cosb ariannol, fod swm y gosb yn afresymol.

(3) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) cadarnhau'r hysbysiad,

(b) amrywio'r hysbysiad,

(c) dirymu'r hysbysiad,

(d) cymryd y camau hynny y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd mewn perthynas â'r hysbysiad, neu

(e) anfon y penderfyniad ynghylch pa un ai i gadarnhau'r hysbysiad, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, at Weinidogion Cymru.

(**1**) Sefydlwyd y Pwyllgor Polisi Ariannol o dan adran 13 o Ddeddf Banc Lloegr 1998 (p. 11).

(7) In paragraph (6), the "Bank of England base rate" means—

(a) except where sub-paragraph (b) applies, the rate announced from time to time by the Monetary Policy Committee(**1**) of the Bank of England as the official dealing rate, being the rate at which the Bank is willing to enter into transactions for providing short term liquidity in the money markets, or

(b) if an order under section 19 of the Bank of England Act 1998 (reserve powers) is in force, any equivalent rate determined by the Treasury under that section.

(8) Amounts payable under this regulation are recoverable as a civil debt.

Appeals against compliance notices and monetary penalty notices

29.—(1) The person on whom a compliance notice or a monetary penalty notice is served may appeal against it to the First-tier Tribunal before the end of the period specified in the notice, which must not be less than 28 days beginning with the day the notice is served.

(2) The grounds of appeal under paragraph (1) are—

(a) that the decision was based on an error of fact,

(b) that the decision was wrong in law,

(c) that there has been a material procedural error, or

(d) in the case of a monetary penalty notice, that the amount of the penalty was unreasonable.

(3) The First-tier Tribunal may—

(a) uphold the notice,

(b) vary the notice,

(c) revoke the notice,

(d) take such steps as the Welsh Ministers could take in relation to the notice, or

(e) remit the decision whether to uphold the notice, or any matter relating to that decision, to the Welsh Ministers.

(**1**) The Monetary Policy Committee was established under section 13 of the Bank of England Act 1998 (c. 11).

(4) Mae gweithrediad unrhyw hysbysiad cydymffurfio neu unrhyw hysbysiad cosb ariannol y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn cael ei atal dros dro wrth aros am ganlyniad yr apêl.

(4) The operation of any compliance notice or monetary penalty notice to which the appeal relates is suspended pending the outcome of the appeal.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Hydref 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
22 October 2025

ATODLEN 1 Rheoliad 5

Dosbarthau cydffurfiad a gorchudd braster i'w defnyddio wrth ddosbarthu carcasau a gafwyd o ddefaid sy'n llai na deuddeg mis oed

Tabl 1

DOSBARTHAU CYDFFURFIAD **Disgrifiadau o'r rhannau hanfodol o garcas dafad (y bedrain, y cefn a'r ysgwydd) sy'n nodi'r dosbarth cydffurfiad ar gyfer y carcas hwnnw**

Dosbarth cydffurfiad	*Disgrifiad*
S Arbennig Iawn	Pedrain: cyhyrau dwbl. Proffiliau'n eithriadol o amgrwm. Cefn: eithriadol o amgrwm, eithriadol o lydan, eithriadol o drwchus. Ysgwydd: eithriadol o amgrwm ac eithriadol o drwchus.
E Ardderchog	Pedrain: trwchus iawn. Proffiliau'n amgrwm iawn. Cefn: amgrwm iawn, llydan iawn a thrwchus iawn hyd at yr ysgwydd. Ysgwydd: amgrwm iawn a thrwchus iawn.
U Da iawn	Pedrain: trwchus. Proffiliau'n amgrwm. Cefn: llydan a thrwchus hyd at yr ysgwydd. Ysgwydd: trwchus ac amgrwm.
R Da	Pedrain: proffiliau'n syth ar y cyfan. Cefn: trwchus, ond llai llydan hyd at yr ysgwydd. Ysgwydd: datblygiad da, ond llai trwchus.

SCHEDULE 1 Regulation 5

Classes of conformation and fat cover to be used in classification of carcasses obtained from sheep aged less than twelve months

Table 1

CONFORMATION CLASSES **Descriptions of the essential parts of a sheep carcass (hindquarter, back and shoulder) which indicate the conformation class for that carcass**

Conformation class	*Description*
S Superior	Hindquarter: double muscled. Profiles extremely convex. Back: extremely convex, extremely wide, extremely thick. Shoulder: extremely convex and extremely thick.
E Excellent	Hindquarter: very thick. Profiles very convex. Back: very convex, very wide and very thick to the shoulder. Shoulder: very convex and very thick.
U Very good	Hindquarter: thick. Profiles convex. Back: wide and thick to the shoulder. Shoulder: thick and convex.
R Good	Hindquarter: profiles mainly straight. Back: thick, but less wide to the shoulder. Shoulder: good development, but less thick.

O Gweddol		Pedrain: proffiliau sy'n tueddu i fod ychydig yn geugrwm. Cefn: diffyg lled a thrwch. Ysgwydd: yn tueddu i fod yn gul. Diffyg trwch.	O Fair		Hindquarter: profiles tending to slightly concave. Back: lacking width and thickness. Shoulder: tending to narrow. Lacking thickness.
P Gwael		Pedrain: proffiliau'n geugrwm i geugrwm iawn. Cefn: cul a cheugrwm, gydag esgyrn yn amlwg. Ysgwydd: cul, gwastad ac esgyrn yn amlwg.	P Poor		Hindquarter: profiles concave to very concave. Back: narrow and concave, with bones apparent. Shoulder: narrow, flat and bones apparent.

Tabl 2

DOSBARTH GORCHUDD BRASTER **Disgrifiadau o raddau gorchudd braster carcas dafad sy'n nodi'r dosbarth gorchudd braster ar gyfer y carcas hwnnw**

Dosbarth Gorchudd Braster	*Disgrifiad*	
1. Isel	Allanol:	Olion braster, neu dim braster, yn weladwy.
	Mewnol:	*Abdomenol:* Olion braster, neu dim braster, yn weladwy ar yr arennau. *Thorasig*: Olion braster, neu dim braster, yn weladwy rhwng yr asennau.
2. Ychydig	Allanol:	Mae haen fach o fraster yn gorchuddio rhan o'r carcas, ond gall fod yn llai amlwg ar yr aelodau.
	Mewnol:	*Abdomenol:* Mae olion braster, neu haen fach o fraster yn amgylchynu rhan o'r arennau. *Thorasig*: Cyhyrau yn weladwy yn glir rhwng asennau.

Table 2

CLASS OF FAT COVER **Descriptions of the degrees of fat coverage of a sheep carcass which indicate the fat cover class for that carcass**

Class of Fat Cover	*Description*	
1. Low	External:	Traces of, or no, fat visible.
	Internal:	*Abdominal*: Traces of, or no, fat visible on kidneys. *Thoracic*: Traces of, or no, fat visible between ribs.
2. Slight	External:	A slight layer of fat covers part of the carcass, but may be less evident on the limbs.
	Internal:	*Abdominal*: Traces of fat, or slight layer of fat envelops part of the kidneys. *Thoracic*: Muscle clearly visible between ribs.

3. Cymedrol	Allanol:	Haen ysgafn o fraster sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf, neu'r cyfan, o'r carcas. Parthau braster ychydig yn fwy trwchus ar fôn y gynffon.	3. Average	External:	A light layer of fat covering most, or all, of the carcass. Slightly thickened fat zones at the base of the tail.
	Mewnol:	*Abdomenol:* Mae haen ysgafn o fraster yn amgylchynu rhan, neu'r cyfan, o'r arennau.		Internal:	*Abdominal*: Light layer of fat envelops part, or all, of the kidneys.
		Thorasig: Cyhyrau yn dal i fod yn weladwy rhwng asennau.			*Thoracic*: Muscle still visible between ribs.
4. Uchel	Allanol:	Haen drwchus o fraster sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf, neu'r cyfan, o'r carcas; ond gall fod yn deneuach ar aelodau, ac yn tewychu ar ysgwyddau.	4. High	External:	A thick layer of fat covering most, or all, of the carcass; but may be thinner on limbs, and thickening on shoulders.
	Mewnol:	*Abdomenol:* Arennau wedi eu hamgylchynu mewn braster.		Internal:	*Abdominal*: Kidneys enveloped in fat.
		Thorasig: Gall cyhyrau rhwng asennau fod wedi eu treiddio â braster. Gall dyddodion braster fod yn weladwy ar yr asennau.			*Thoracic*: Muscle between ribs may be infiltrated with fat. Fat deposits may be visible on the ribs.
5. Uchel iawn	Allanol:	Gorchudd braster trwchus iawn. Clytiau o fraster weithiau yn weladwy.	5. Very high	External:	Very thick fat cover. Patches of fat sometimes visible.
	Mewnol:	*Abdomenol:* Arennau wedi eu hamgylchynu mewn haen drwchus o fraster.		Internal:	*Abdominal*: Kidneys enveloped in thick layer of fat.
		Thorasig: Cyhyrau rhwng asennau wedi eu treiddio â braster. Dyddodion braster yn weladwy ar asennau.			*Thoracic*: Muscle between ribs infiltrated with fat. Fat deposits visible on ribs.

ATODLEN 2 Rheoliad 19

Proses prawf awdurdodi ar gyfer dulliau dosbarthu awtomataidd a gofynion sylfaenol ar gyfer canlyniadau profion

RHAN 1

Proses Prawf Awdurdodi

1. Rhaid profi dull dosbarthu awtomataidd sydd wedi ei gyflwyno i'w awdurdodi wrth ddosbarthu sampl o 1200 o garcasau o leiaf, y mae rhaid i bob un ohonynt hefyd gael ei ddosbarthu drwy edrych arno gan bob aelod o banel a gynullwyd at y diben hwn gan Weinidogion Cymru.

2. Rhaid i'r panel a gynullir gan Weinidogion Cymru ar gyfer y prawf awdurdodi gynnwys odrif o bum arbenigwr o leiaf mewn dosbarthu carcasau defaid.

3. Yn ystod y broses brawf rhaid i aelodau'r panel ddefnyddio'r israniadau o ddosbarthau cydffurfiad a gorchudd braster y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(3).

4. Rhaid i aelodau'r panel weithio'n annibynnol ac yn anhysbys i'w gilydd.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd enwebu cydlynydd y broses prawf awdurdodi—

(a) na chaiff fod yn rhan o'r panel,

(b) y mae rhaid iddo gynnal annibyniaeth mewn cysylltiad â'r panel, ac

(c) y mae rhaid iddo, ym marn Gweinidogion Cymru, feddu ar wybodaeth dechnegol foddhaol i gyflawni'r rôl hon.

6. Rhaid i'r cydlynydd a enwebir o dan baragraff 5—

(a) monitro gwaith y panel a gynullir o dan baragraff 1,

(b) sicrhau bod pob aelod o'r panel yn dosbarthu'r carcasau drwy edrych arnynt yn annibynnol ar aelodau eraill y panel ac yn anhysbys iddynt,

(c) gwirhau bod pob carcas a ddosberthir wedi—

(i) ei gael o ddafad a oedd yn llai na 12 mis oed ar adeg ei chigydda, a

(ii) ei gyflwyno yn yr un modd â phob carcas arall a ddefnyddir yn y broses brawf, hynny yw'n unol â gofynion rheoliad 7,

SCHEDULE 2 Regulation 19

Authorisation test process for automated classification methods and minimum requirements for test results

PART 1

Authorisation Test Process

1. An automated classification method which has been submitted for authorisation must be tested in the classification of a sample of at least 1200 carcasses, each of which must also be visually classified by every member of a panel which has been convened for this purpose by the Welsh Ministers.

2. The panel convened by the Welsh Ministers for the authorisation test must be composed of an uneven number of at least five experts in classification of carcasses of sheep.

3. During the test process the members of the panel must use the subdivisions of classes of conformation and fat cover referred to in regulation 5(3).

4. The members of the panel must work independently and anonymously of each other.

5. The Welsh Ministers must also nominate a coordinator of the authorisation test process, who must—

(a) not be part of the panel,

(b) maintain independence with regard to the panel, and

(c) in the opinion of the Welsh Ministers, have satisfactory technical knowledge to carry out this role.

6. The coordinator nominated under paragraph 5 must—

(a) monitor the work of the panel convened under paragraph 1,

(b) ensure that each panel member carries out the visual classifications of the carcasses independently and anonymously from the other panel members,

(c) verify that each carcass classified is—

(i) obtained from a sheep aged less than 12 months at the time of slaughter, and

(ii) presented in the same way as all other carcasses used in the test process, that being in accordance with the requirements of regulation 7,

(d) casglu—

(i) canlyniadau dosbarthu aelodau'r panel, a

(ii) y canlyniadau dosbarthu a gafwyd drwy ddefnyddio'r dull dosbarthu awtomataidd,

ar gyfer pob carcas,

(e) sicrhau, drwy gydol y prawf awdurdodi, nad yw'r canlyniadau dosbarthu a gafwyd drwy ddefnyddio'r dull dosbarthu awtomataidd ar gael i unrhyw aelod o'r panel nac i unrhyw barti arall â buddiant,

(f) gwneud penderfyniad, am resymau gwrthrychol y mae rhaid iddo eu pennu, pa un a ddylai unrhyw garcasau gael eu heithrio o'r sampl i'w ddefnyddio ar gyfer y dadansoddiad,

(g) sicrhau bod y sampl ddadansoddi yn cynnwys rhychwant o garcasau sy'n gynrychioliadol o'r amrywiaeth o ddefaid a gigyddir mewn lladd-dai rheoleiddiedig,

(h) anfon y canlyniadau at Weinidogion Cymru a'r ystadegydd dadansoddi data a enwebwyd o dan baragraff 7, ac

(i) anfon adroddiad at Weinidogion Cymru ar sut y cynhaliwyd y prawf, gan gynnwys gwybodaeth am sut y cyflwynwyd y carcasau yn ystod y broses brawf.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru enwebu ystadegydd dadansoddi data annibynnol ar gyfer pob prawf, y mae rhaid iddo—

(a) dadansoddi canlyniadau'r prawf a gasglwyd gan y cydlynydd i ganfod cywirdeb y dull dosbarthu awtomataidd yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen hon, a

(b) cyfathrebu canlyniadau'r dadansoddiad a gynhaliwyd o dan is-baragraff (a) â Gweinidogion Cymru.

RHAN 2

Gofynion sylfaenol ar gyfer canlyniadau prawf

8. Os yw'r dull dosbarthu awtomataidd yn methu â chynhyrchu unrhyw ganlyniad dosbarthu ar gyfer 5% neu ragor o'r carcasau yn y sampl prawf, rhaid ystyried ei fod wedi methu'r broses prawf awdurdodi.

9. Os nad yw paragraff 8 yn gymwys, rhaid asesu cywirdeb y dull dosbarthu awtomataidd yn unol â'r paragraffau a ganlyn yn y Rhan hon.

(d) collect—

(i) the classification results of the members of the panel, and

(ii) the classification results obtained by using the automated classification method,

for each carcass,

(e) ensure that, during the entire duration of the authorisation test, the classification results obtained by using the automated classification method are not available to any member of the panel or to any other interested party,

(f) make a decision whether, for objective reasons they must specify, any carcasses should be excluded from the sample to be used for the analysis,

(g) ensure that the analysis sample includes a spread of carcasses which is representative of the variety of sheep slaughtered in regulated slaughterhouses,

(h) send the results to the Welsh Ministers and the data analyst-statistician nominated under paragraph 7, and

(i) send to the Welsh Ministers a report on how the test was conducted, including information on how the carcasses were presented during the test process.

7. The Welsh Ministers must nominate an independent data analyst-statistician for each test, who must—

(a) analyse the results of the test collected by the coordinator to determine the accuracy of the automated classification method in accordance with Part 2 of this Schedule, and

(b) communicate the results of the analysis conducted under sub-paragraph (a) to the Welsh Ministers.

PART 2

Minimum requirements for test results

8. If the automated classification method fails to generate any classification result for 5% or more of the carcasses within the test sample, it must be considered to have failed the authorisation test process.

9. If paragraph 8 does not apply, the accuracy of the automated classification method must be assessed according to the following paragraphs in this Part.

10. Ar gyfer pob carcas yn y sampl prawf, rhaid ystyried canolrif y canlyniadau a gafwyd gan holl aelodau'r panel drwy edrych fel y canlyniad dosbarthu cywir ar gyfer y carcas hwnnw.

11. Rhaid cymharu canlyniadau a gynhyrchir drwy'r dull dosbarthu awtomataidd, ar gyfer pob carcas, â'r canlyniad dosbarthu cywir.

12. Rhaid sefydlu cywirdeb y dull dosbarthu awtomataidd drwy ddyrannu pwyntiau i bob canlyniad dosbarthu a gynhyrchir drwy'r dull hwnnw, yn seiliedig ar radd ei wyriad oddi wrth y canlyniad dosbarthu cywir ar gyfer cydffurfiad a gorchudd braster yn unol â Thabl 1 isod.

Tabl 1

Gwyriad oddi wrth ganlyniad dosbarthu cywir	*Cydffurfiad*	*Gorchudd braster*
Dim gwyriad	10	10
Gwyriad o 1 israniad dosbarth (i fyny neu i lawr)	6	9
Gwyriad o 2 israniad dosbarth (i fyny neu i lawr)	-9	0
Gwyriad o 3 israniad dosbarth (i fyny neu i lawr)	-27	-13
Gwyriad o fwy na 3 israniad dosbarth (i fyny neu i lawr)	-48	-30

13. Er mwyn pasio'r prawf awdurdodi, rhaid i'r dull dosbarthu awtomataidd gyflawni o leiaf 60% o uchafswm nifer y pwyntiau o dan Dabl 1 ar gyfer cydffurfiad a gorchudd braster.

14. Yn ogystal â'r gofyniad o dan baragraff 13, rhaid i'r dosbarthiadau drwy'r dull dosbarthu awtomataidd fod o fewn y terfynau a bennir yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2

	Cydffurfiad	*Gorchudd Braster*
Tuedd	± 0.30	± 0.60
Llethr y llinell atchweliad	1 ± 0.15	1 ± 0.30

10. For each carcass within the test sample, the median of the visual results of all the members of the panel must be considered as the correct classification result for that carcass.

11. Results generated by the automated classification method must, for each carcass, be compared to the correct classification result.

12. The accuracy of the automated classification method must be established by allocating points to each classification result generated by that method, based on its degree of deviation from the correct classification result for both conformation and fat cover in accordance with Table 1 below.

Table 1

Deviation from correct classification result	*Conformation*	*Fat cover*
No deviation	10	10
Deviation of 1 class subdivision (up or down)	6	9
Deviation of 2 class subdivisions (up or down)	-9	0
Deviation of 3 class subdivisions (up or down)	-27	-13
Deviation of more than 3 class subdivisions (up or down)	-48	-30

13. To pass the authorisation test, the automated classification method must achieve at least 60% of the maximum number of points under Table 1 for both conformation and fat cover.

14. In addition to the requirement under paragraph 13, the classifications by the automated classification method must be within the limits specified in Table 2 below.

Table 2

	Conformation	*Fat Cover*
Bias	± 0.30	± 0.60
Slope of the regression line	1 ± 0.15	1 ± 0.30

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39732-1

£8.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1121